# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 15/01/2019 Siop Siarad am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad.) | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Glenda Rice | Catrin Roberts | Gwynfor Jones | Lleucu Jones | Carys Roberts |
| Guto Williams | Caren Jones | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau**
Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Mared Llywelyn, Janice Evans a Sian Hughes.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio; Aelod o Bwyllgor Cynllunio.
Rhys Tudur – Cais Cynllunio Nant y Felin; Ffrind agos

3. **Cofnodion 15/12/2018, Pwyllgor Brys 03/01/2019 er cywirdeb yn unig**
Nodwyd Gruffydd Williams ei fod yn anghytuno gyda'r cofnodion ac eisiau gwneud newidiadau; nodi'r nad ef oedd yn cadarnhau'r gwaith i'r llwybrau ond Simon Jones.
Mae Sharon Williams eisiau gwneud nifer o newidiadau i gofnodion 03/01/2019 er nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Nid yw rhai o'r materion er cywirdeb yn unig.
Cynigwyd Rhys Tudur ein bod yn gohirio'r hyn tan bwyllgor mis Chwefror gydag awgrymiadau yn cael eu gyrru i'r Clerc.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   i. Mae Guto Williams yn nodi ei fod yn bryderus am gyflwr llwybr cyhoeddus Allt Goch Edern. Mae cyflwr y tir yn ofnadwy ac mae'n awgrymu bod y Cyngor Tref yn gweithio gyda tenantiaid sydd yn cynnig gwneud gwaith am ddim ar y safle yw gwella. Mae Arfon Hughes yn cynnig (eilydd; Caren Jones) i Guto Williams mynd yn ôl i gael pris am gerrig yw gosod ar y safle. Mae'r pwyllgor yn cytuno.
   ii. Iddew angen ei dorri ar lwybr cyhoeddus, cynigwyd Rhys Tudur (eilydd; Arfon Hughes) i gysylltu hefo Cliff Hughes er mwyn ei dorri, mae'r cynnig yn cario.

5. **Etholiadau**
   i. Mae Rhys Tudur yn croesawu Caren Jones i'r pwyllgor a'i llongyfarch am fod yn llwyddiannus.
   Mae'r Clerc wedi paratoi ffurflen gwerthuso Cyngor Tref Nefyn. Mae'r ffurflen yn ffordd o ddarganfod os yw'r Cyngor Tref yn gweithredu ar ei orau drwy dderbyn adborth gan gyn cynghorwyr.
   Cynigwyd Rhys Tudur (eilydd; Arfon Hughes) i'r Clerc yrru'r ffurflen ymlaen i'r oll gynghorwyr er mwyn eu gwyro.
   Mae'r Clerc yn awgrymu darparu pecyn gwybodaeth ar ffurf electroneg i aelodau newydd i gynnwys:
   - Canllaw'r Cynghorydd Da
   - Polisïau Cyngor Tref Nefyn
   - Rhestr hyfforddiant Un Llais Cymru ac ati
   
   Mae Rhys Tudur yn cynnig (eilydd; Catrin Roberts) ei bod yn darparu'r wybodaeth yma i'r aelodau newydd. Mae'r pwyllgor yn cytuno.
   ii. Mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan ymgeisydd Cai Rees Jones yn holi sut cafwyd y penderfyniad yw gwneud. Mae'n amlygu nad oedd wedi derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol fel aelod o'r cyhoedd fel yr ymgeiswyr eraill. Mae Rhys Tudur yn nodi mai camgymeriad gan y Clerc wrth ysgrifennu ei e-bost yw hyn. Nodwyd bod y Clerc a'r Cadeirydd wedi trafod gyda'r ymgeisydd yn helaeth ac wedi ymddiheuro. Mae'r Clerc wedi hefyd diolch am ei gais ac estyn gwahoddiad i'r ymgeisydd drio eto yn y dyfodol os bydd sedd wag ar gael.

**6. Gwasanaethau Ieuenctid**

Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd yn bryderus am nifer o blant yn ymgynyll ar y stryd pan maent i fod yn y Clwb Ieuenctid. Mae'n ymddangos eu bod yn cychwyn y noson yn y clwb ac yna yn gadael i fynd i'r stryd. Maent yn swnllyd ac yn gadael llanast ar eu hol.

Nodwyd nad oes modd i orfodi'r aelodau i aros yn y ganolfan yn ystod amser y clwb ond mae'r cwestiwn yn codi os ydi'r rhieni yn ymwybodol o hyn. Gellir cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i weld a oes bosib gwneud hyn yn glir i'r rhieni. Mae Rhys Tudur yn cynnig (eilydd Catrin Roberts) i Gruffydd Williams gysylltu hefo'r gwasanaeth Ieuenctid ar ran y Cyngor Tref gan gopïo'r Clerc i mewn i'r ohebiaeth.

**7. Traethau**

Diweddariad gan Gruffydd Williams ynglŷn â gohebiaeth mae wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd bod angen i'r Cyngor Tref ddilyn y camau canlynol i weithredu ar draethau.

- Cofnodi Pryderon
- Cyngor Tref Nefyn i ofyn yn ffurfiol wrth Gyngor Gwynedd am gymorth
- Materion Technegol
- Ymgynghoriad Cyhoeddus
- Casgliadau
- Gweithredu

Cynigwyd Arfon Hughes (eilydd; Gwynfor Jones) i gynnal cyfarfod cyhoeddus is-bwyllgor Traethau i drafod pryderon y trigolion cytunwyd i gynnal y cyfarfod 29/01/2019. Cytunwyd Gruffydd Williams i yrru'r holl ohebiaeth ymlaen i'r Clerc er gweithredu. Bydd y Clerc yn gosod posteri i hysbysu'r cyfarfod.

**8. Llwybrau**

Diweddariad gan Gruffydd Williams ynglŷn â llwybr y morwyr – mae'r llwybr yn y broses o gael ei fabwysiadu a bydd Gruffydd Williams yn cyfarfod hefo Cyngor Gwynedd yn yr wythnosau nesaf er mwyn trafod dynodiad a hyrwyddo'r llwybr.

**9. Siop Siarad**

i. Mae'r Clerc wedi trefnu clirio yn Siop Siarad 26/01/2019, gyda nifer o aelodau yn barod i wirfoddoli.
ii. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi derbyn pris am ddau wresogydd. Mae Catrin Roberts yn cynnig (eilydd; Rhys Tudur) bod y Cyngor Tref yn derbyn y pris ac mae Bleddyn Evans yn garedig iawn yn gwirfoddoli i wneud y gwaith trydan am ddim.
iii. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod y les yn dderbyniol ac yn cael ei barhau hyd at ddiwedd mis Mai 2020.

**10. Gwynedd Digidol**

Mae Bleddyn Evans wedi cyfarfod hefo Paul Sandham i nodi'r holl fusnesau sydd yn cael eu cynnwys yn y prosiect ac maent yn gytûn i fynd ymlaen ar waith, gyda chontractwyr yn hapus hefo'r safleoedd. Mae'n nodi y bydd y gwasanaeth ar gael yn yr wythnosau nesaf.

Bydd Bleddyn Evans yn cadw llygaid ar y sefyllfa.

Nodwyd y bydd eisiau talu y £1000 a cytunwyd fel cyfrianiad 10% i'r prosiect.

**11. Lloches Bws**

Yn dilyn ymholiad gan y cyhoedd ynglŷn â lloches bws cysylltwyd gyda Chyngor Gwynedd sydd yn nodi yntai Gyngor Tref sydd yn gyfrifol am yr oll lloches yn y gymuned. Mae'r Clerc wedi gofyn am dystiolaeth am hyn gan Gyngor Gwynedd. Bydd rhaid derbyn mwy o wybodaeth at gyfarfod nesaf.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

Nodwyd bod y ffens wrth loches bws Glan Pwll wedi ei fagio ac angen ei adnewyddu.

**12. Llyfrgell**

Mae'r Cyngor wedi derbyn anfoneb am waith yn y llyfrgell. Nid oes aelod yn ymwybodol am y gwaith yma. Cytunwyd i gynnal is-bwyllgor Y Llyfrgell 22/01/2019 i drafod gwaith adnewyddu sydd eisiau ei wneud.

**13. Toiledau**

Rhys Tudur yn egluro bod y Cyngor Tref wedi derbyn cynnig i greu cytundeb 2019-2020 a 2020-2021 gan Gyngor Gwynedd. Bydd y cytundeb gyda'r un telerau ac eleni. Cynigwyd Guto Williams (eilydd: Arfon Hughes) ein bod yn derbyn y cynnig yma. Mae'r pwyllgor yn cytuno. Bydd Rhian Hughes-jones yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r hyn gan nodi y byddwn angen arwyddo cytundeb ffurfiol eto pan yn amserol.

**14. Bin Halen**

Yn dilyn trafodaethau pellach gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'i chynnig i lenwi biniau halen yr ardal am ffi yn daladwy gan y Cyngor Tref nid oes unrhyw ddiweddariad i'r isod:

| | |
|---|---|
| 1. Lle mae'r biniau halen? | Mae 6 bin yn ein hardal – Hafod Mynydd, Mynwent y Fron, Tan y Mynydd, Coed Mynydd, Cernigog a Lon Fawr Ddu. |
| 2. Pwy sydd yn llenwi'r biniau? | Cyngor Gwynedd. |
| 3. Ydi'r Cyngor Tref angen trwydded? | Na, nid oes angen trwydded. |
| 4. Be ydi'r amodau? | |
| 5. Ydi'r biniau yn cael eu llenwi ar gais y gymuned? | Nac ydi, dim ond y Cyngor Tref sydd gyda hawl i wneud cais i ail lenwi bin halen |
| 6. Cyfrifoldeb pwy yw'r biniau? | |

Nodwyd nad oedd y biniau wedi ei llenwi llynedd. Mae Arfon Hughes yn cynnig (Eilydd – Gwynfor Jones) i beidio â llenwi'r biniau eleni. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i nodi penderfyniad y Cyngor Tref.

**15. Cyllid 3-5 mlynedd**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Nodwyd bod wedi cychwyn y gwaith ar y cynllun busnes 3-5 mlynedd i'r holl brosiectau sydd ar y preasept. Nodwyd bod y preasept wedi ei osod ar £65000 gyda'r gwahaniaeth yn dod o'r gronfa gefnogol. Bu i Rhian Hughes-Jones lenwi'r ffurflen fel y cynigir Rhys Tudur (eilydd; Guto Williams) a'i gytuno gan y pwyllgor. Wnaiff Rhian Hughes-jones yrru'r ffurflen ymlaen i Gyngor Gwynedd.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/1104/42/LL**
Addasu ac ymestyn adeilad allanol i ffurfio rhan o'r ty.
16, Nant Y Felin, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

**C18/1089/42/LL**
Trosi hen stablau / storfa i dy annedd yn cynnwys creu ffenestr gromen newydd.
Hen Stablau, Stad Ty Cerrig, Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 15/01/2019 Siop Siarad am 7yh

**C18/1196/42/LL**
Estyniad cefn ac addasiadau mewnol ar gyfer defnyddiwr cadair olwyn
15, Llwyn Gwalch Estate, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

## Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Ionawr 2019
2. **Un Llais Cymru -** Bwletin Newyddion Blwyddyn Newydd 2019
3. **SLCC** - Bwletin Ionawr 2019
4. **Clerks & Councils Direct** – Ionawr 2019
5. **Local Council Update** – Ionawr 2019
6. **Swyddfa Archwilio -** cymru mae angen i lywodraeth leol wneud rhagor i ddatblygu diwylliant data cadarn.
7. **Un Llais Cymru** - sessiwn hyfforddiant un llais cymru - y gogledd - ionawr - mawrth 2019
8. **Cyngor Gwynedd** - Ymgynhgoriad ar Polisi Gosod Tai Gyffredin Gwynedd
9. **Cymdeithas Cludiant Cymunedol** - Cylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru
10. **Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2019-20**
11. **Polisi Cynllunio** -Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol
12. **Cyngor Gwynedd** - Cwmni Hamdden Gwynedd
13. **Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol** – Pecyn Cymorthwyo
14. **Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr –** Cyfarfod 11eg Rhagfyr 2018
15. **Llywodraeth Cymru -** Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref
16. **Cyngor Sir Ddimbych -** Digwyddiad Tref a Chymuned Ionawr 11
17. **Heddlu Gogledd Cymru** – Chwifio'r faner yn erbyn twyll
18. **Llywodraeth Cymru** - Gweithredu ar Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)
19. **Cymorth Cynllunio Cymru -** Digwyddiad Rhwydwaith ac Hyfforddi
20. **Cyngor Gwynedd -** Llecynnau sydd angen arwyddion "dim bwydo"

## Taliadau wedi eu gwneud

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** Ionawr 2019 | **£797.57** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | **£33.88** |
| **Ashley Hughes -** Gwenyddol | **£146.27** |
| **Cliff Hughes –** Contract 2017-2020 | **£825.00** |
| **Cyngor Gwynedd** – Glanhau Llyfrgell | **£640.30** |
| **Sharon Williams** – Ad daliad blodau | **£90.70** |
| **T N RobinsonLtd** – Gwresogydd Siop Siarad | **£864.00** |

## Taliadau wedi eu derbyn

| | |
|---|---|
| **DIM** | **£0.00** |

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 15/01/2019 Siop Siarad am 7yh

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **LLYFRAU LLAFAR CYMRU** - Bob blwyddyn byddwn ni, yn Llyfrau Llafar Cymru yn recordio 50 o lyfrau Cymraeg a Saesneg fel y gall pobl sydd â nam ar eu golwg fwyhau pob math o lenyddiaeth.
2. **Nyrsys Marie Curie -** Mae'r holl arian sydd yn cael ei cyfrani yn cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie, felly gall y claf a teuluoedd yn y cymuned gael help gan eich rhodd.
3. **Prosiect Plas Carmel, Anelog –** Adfer hen adeilad capel unigryw a datblygu'r safle fel atyniad treftadaeth.
4. **Dawns i Bawb**
5. **Theatr Bara Caws** - cais am gymhorthdal am y flwyddyn ariannol 2018/19

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf**

Cofnodion is-bwyllgor Brys 03/01/2019

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur • 07825 129 737